

## CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Llandysul, ar 11 Medi 2017**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Llandysul Youth Centre, on 11th September 2017**

### **Yn Bresennol/Present:**

Cyng/Cllrs Tom Cowcher, Eileen Curry, Douglas Davies, Keith Evans, Peter Evans, Andrew Howell, Aled Jones, Gethin Jones, Llyr Jones, Susan Lloyd a Cyng Sir Peter Davies

### **Ymweliad**

Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Thro seddu ardal Dyfed, Mr Dafydd Llywelyn, yn bresennol yn y cyfarfod. Esboniodd y cefndir i'r Cyngor a'r hyn y mae ei waith yn ei gynnwys. Dosbarthodd daflenni a baratowyd gan ei swyddfa yn amlinellu ei flaenoriaethau ac ati. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ddirnadaeth gynhwysfawr iawn o'i gwaith ac am fynychu'r cyfarfod ac ymateb i gwestiynau'r Cyngorwyr.

### **Visit**

Police Crime Commissioner for Dyfed, Mr Dafydd Llywelyn was present at the meeting. He explained to the Council the background and what his work involves. He distributed flyers prepared by his office outlining what his priorities etc are. The Chairman thanked him for a very comprehensive insight into his work and for attending the meeting and responding to Councillors questions.

- 1 Cafwyd **ymddiheuriadau** gan Gynghorwyr Abbey Reid a Beth Davies.
- 2 **Datgelu Buddiannau** Datgelwyd Budd gan Gyng Llŷr Jones mewn perthynas â chais Cynllunio A170827.
- 3 Derbyniwyd bod **cofnodion** y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 12 Mehefin a 10 Gorffennaf yn gywir, ac fe'u llofnodwyd ar ôl nodi bod Coed Llanfair yn ardal Capel Dewi.  
**Personal** Estynnwyd llonyfarchiadau i Gyng Llŷr Jones ar achlysur ei ddyweddiad yn ystod yr haf.  
Estynnwyd croeso cynnes i aelodau newydd y Cyngor, Cynghorwyr Peter Evans a Susan Lloyd, a lofnododd eu datganiad derbyn Swydd, gan gynnwys y Cod Ymddygiad. Llanwyd yr un dogfennau gan Gyng Aled Jones hefyd.
- 4 **Apologies** were received from Cllrs Abbey Reid and Beth Davies.
- 5 **Declarations of Interest** There were declarations of Interest from Cllr Llyr Jones with regards to Planning application A170827.
- 6 **Minutes** of the monthly meeting held on 12<sup>th</sup> June and 10th July 2017 were accepted as correct and to be signed following noting that Llanfair Woods are in Capel Dewi.  
**Personal** Congratulations were extended to Cllr Llyr Jones on his engagement over the summer.  
A warm welcome was extended to new members of the Council, Cllrs Peter Evans and Susan Lloyd who duly signed their declaration of acceptance of Office including the Code of Conduct. Cllr Aled Jones also completed the same documents.

#### **Materion yn Codi**

Dim

#### **Matters Arising**

None

#### **4 Rhoddion**

##### **Canolfan Geufad**

Gofynnwyd am rodd o £2000 gan Ganolfan Geufad Llandysul er mwyn cynorthwyo i dalu'r costau o redeg Gŵyl yr Afon. Penderfynwyd y dylai'r cleric ofyn am wybodaeth ariannol bellach ar ffurf mantolen y digwyddiad. Cafodd y cynghorwyr adroddiad am y sylwadau a wnaethpwyd gan y sawl a oedd wedi mynychu'r Wyl, gan groesawu hyn.

#### **4 Donations**

##### **Canoe Centre**

A request for a donation of £2000 from Llandysul Canoe Centre to assist with the running costs of the River Festival. It was decided that the clerk requests further financial information in the form of an event balance sheet. Councillors received and welcomed a report on the comments made by attendees of the Festival.

#### **5 Materion i'w trafod**

##### **Sedd wag**

Nid oedd unrhyw un wedi mynegi diddordeb yn y sedd wag ar gyfer y dref ar y cyngor. Gofynnwyd i'r aelodau ganfasio ymhlið y cyhoedd, gan ofyn i unrhyw un sydd â diddordeb i gysylltu â'r Clerk.

##### **Cyfryngau Cymdeithasol**

Estynnwyd llonyfarchiadau i Gynghorwyr Abbey Reid a Llŷr Jones ynghylch tudalen facebook y Cyngor.

Mabwysiadodd y Cyngor Cymuned y Polisi

#### **5 Matters for discussion**

##### **Vacancy**

No interest had been shown for the vacant town ward seat on the council. Members were asked to canvas the public and to request any interested party to liaise with the Clerk.

##### **Social Media**

Congratulations were expressed to Cllrs Abbey Reid and Llyr Jones on the Council's facebook page.

The Community Council adopted the Social Media Policy forwarded by One Voice Wales which was

Cyfryngau Cymdeithasol a anfonwyd ymlaen gan Un Llais Cymru, a lofnodwyd gan y Cadeirydd. Gofynnwyd i Gyng Llŷr Jones gyfieithu'r holl fewnbwn Cymraeg ar y dudalen.

### **Gwobr y Gymuned**

Atgoffwyd y cyngorwyr o'r ffaith y dylid dychwelyd enwebiadau ar gyfer Gwobr y Gymuned erbyn 7/10/17 ac roedd ffurflen gais electronig wedi cael ei hanfon at yr holl Aelodau. Penderfynwyd cyflwyno tarian y dref yn yr Iseldiroedd pan fydd Côr Tre-groes yn ymweld ag Eindhoven. Gofynnwyd i Gyng Keith Evans gyflwyno'r darian ar ran y Cyngor.

### **Cinio Nadolig**

Penderfynwyd cynnal y Cinio Nadolig blynnyddol ar 25 Tachwedd 2017, y lleoliad i'w gadarnhau.

### **Materion Wardiau**

#### **Llandysul**

Bydd Gorsaf yr Heddlu yn Llandysul ar gau am 3-4 wythnos yn dilyn digwyddiad a arweiniodd at gadw unigolyn dan gadwad, er mwyn caniatáu i'r swyddfa gael ei hadnewyddu'n llwyr o ganlyniad. Hysbysfwrdd yn y Maes parcio; mae angen disodli'r persbecs. Bydd y clerc yn gwneud ymholiadau am y gost ac yn adrodd yn ôl.

Mae planhigion yn y dysglau plannu yn Lôn Letty wedi tyfu'n wylt, gan guddio rhai arwyddion cyfeiriad ac arwyddion brown twristiaeth. Penderfynwyd gofyn i Farmyard nurseries waredu'r planhigion tal.

Mae angen ailosod y ffens o gwmpas lle chwarae y plant. Bydd angen darganfod y gost er mwyn ei ddisodli, a cheisio cymorth grant gan gronfa grant cymunedol Ceredigion a / neu ffynonellau eraill er mwyn sicrhau bod y ffens yn addas i'r diben erbyn y gwanwyn flwyddyn nesaf. Cysylltir â'r ganolfan ieuengtid er mwyn gofyn iddynt symud eu gwaith celf ymlaen llaw cyn i unrhyw waith gael ei wneud.

Parc Yr Ynn/Heol Llynnyfran – mae angen disodli'r arwyddion rhybuddio am gyflymder. Bydd y clerc yn cysylltu ag Adran Briffyrrd Ceredigion.

duly signed by the Chairman.

It was requested that Cllr Llyr Jones translate all the Welsh input on the page.

### **Community Award**

Councillors were reminded that nominations for the Community Award should be returned by 7/10/17 and an electronic application form had been sent to all Members.

It was decided to present a shield to the town in Holland when Tregroes Choir visit Eidenhoven. It was requested that Cllr Keith Evans present the shield on the Councils' behalf.

### **Christmas Dinner**

It was decided that the annual Christmas Dinner would be held on the 25 November 2017 venue to be confirmed.

### **Ward Matters**

#### **Llandysul**

The Police Station in Llandysul would be closed for 3-4 weeks following an incident which had resulted in a person being detained and to allow a total refurbishment of the office as a consequence. Notice board in the Car park; Perspex needed to be replaced. The clerk to arrange costing's and report back.

Plants within the planters on Lon Letty had over grown resulting in hiding some directional and tourism brown signs. It was decided to ask Farmyard nurseries to remove the tall plants.

Perimeter fence around the children's play area needs to be re-fenced. There will be a need to identify costs for the replacement and to seek grant aid from Ceredigion community grant fund and / or other sources in order to ensure that the fence is fit for purpose for the spring of next year. Contact to be made with the youth centre for the removal of their artwork in advance of any work taking place.

Parc Yr Ynn/Heol Llynnyfran – Speed warning signs needs to be replaced. The clerk to contact Ceredigion Highways Department.

As Barclays Bank would be closing their

Oherwydd y byddai Banc Barclays yn cau eu cangen yn Llandysul ym mis Tachwedd, ac y byddai Swyddfa'r Post yn symud i Bont-tyweli, penderfynwyd gofyn i Gyngor Sir Ceredigion ystyried cynnig parcio am ddim yn Llandysul er mwyn annog pobl i ddod i'r dref. Dywedodd Cyngorydd Sir Keith Evans ei fod eisoes wedi gofyn bod eitem yn cael ei gynnwys ar agenda y pwylgor crafu priodol yn y dyfodol yng hylch meysydd parcio y Sir.

Cafwyd cylchlythyr gan Llandysul a Phont-Tyweli Ymlaen ac fe'i ddosbarthwyd i bawb.

#### **Capel Dewi**

Nid yw'r hysbysfrwrdd yng Nghapel Dewi wedi cael ei drwsio o hyd. Bydd y clerc yn cysylltu â G&M Engineering unwaith eto.

#### **Pont-siân**

Roedd llstyfiant yn tyfu'n wylt ar nifer o ffyrdd annosbarthedig yn yr ardal. Byddai Cyng Peter Davies yn cysylltu â'r adran berthnasol i ofyn i'r criwiau cynnal a chadw ddod allan.

#### **Pren-gwyn**

Bydd Cyng Eileen Curry yn archwilio'r goleuadau stryd.

#### **Pont-siân**

Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â Sian Witten, Cyngor Sir Ceredigion er mwyn gweld a oedd unrhyw ddatblygiadau mewn perthynas â'r lloches bws.

(Ymunodd Cyng Beth Davies â'r cyfarfod)

#### **6 Cydnabod derbyn Rhoddion**

Addoldai Cymru – Cafwyd llythyr o ddiolch a dogfennaeth ategol ac ysgrifennwyd siec am £1500.

Sioe Pren-gwyn – Cafwyd anfonebau ac ysgrifennwyd siec am £200

#### **Gohebiaeth**

Cafwyd y canlynol gan

#### **Geredigion:-**

Cafwyd llythyr e-ddysgu Carer Aware.

**ULIC/SLCC** – Negeseuon e-bost – Cyflwynwyd rhestr o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y clerc ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 10 Gorffennaf 2017 a 10 Medi 2017.

Llandysul branch in November and that the Post Office would be relocating to Ponttweli, it was decided to request Ceredigion County Council to give consideration for free car parking Llandysul in order to encourage people into the town. County Cllr Keith Evans advised that he had already asked that an item on the Counties car parks be put on a future agenda of the appropriate scrutiny committee.

A newsletter was received from Llandysul a Phont-Tyweli Ymlaen and distributed to all.

#### **Capel Dewi**

Noticeboard in Capel Dewi had still not been fixed. The clerk to contact G&M Engineering again.

#### **Pontsian**

A number of unclassified roads in the area was very overgrown with vegetation. Cllr Peter Davies would contact the relevant department to request the attendance of maintenance crews.

#### **Prengwyn**

Cllr Eileen Curry to check the street lights.

#### **Pontsian**

It was decided that the clerk contact Sian Witten Ceredigion County Council to see if there were any developments with regards to the bus shelter.

(Cllr Beth Davies joined the meeting)

#### **6 Acknowledge receipt of Donations**

Addoldai Cymru – Letter of thanks and supporting documentation was received a cheque was written for £1500.

Prengwyn Show – Invoices were received and a cheque was written for £200

#### **Correspondence**

The following were received from

#### **Ceredigion:-**

Carer Aware e-learning letter was received.

**OVW/SLCC** – Emails – A list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 10<sup>th</sup> July 2017 – 10 September 2017 was tabled.

A copy of the Clerk and Clerks and Councils direct magazine was received.

Cafwyd copi o gylchgrawn Clerk a Clerks and Councils direct.

Cafwyd a dosbarthwyd poster **Cered**.

Cafwyd Hysbysiad Cwblhau Archwiliad gan **Grant Thornton** a gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol i'w gymeradwyo a'i dderbyn. Dangosir yr hysbysiad am 14 diwrnod. Mae modd archwilio'r cyfrifon yng nghartref y Clerc hefyd, trwy wneud apwyntiad ymlaen llaw.

Cafwyd cadarnhad bod y cyfrifon ar 30 Mehefin 2017 wedi cael eu harchwilio ac y canfuwyd eu bod yn gywir ar sail y wybodaeth a ddarparwyd. Llongyfarchwyd y Clerc gan yr aelodau am sicrhau archwiliad glân unwaith eto.

**J Parkers** – Cafwyd Catalog Hydref 2017.

## **7 Cynllunio:**

Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad a gynhelir ar 13.09.17.

Cefnogwyd y cynlluniau canlynol gan y Cyngor Cymuned ac ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau iddynt:-

A170827 – Tir ar ochr Ogleddol rhan A486 Fferm Blaencwmerwydd – adeiladu annedd a thŷ allan amaethyddol.

A170715 – Cyn Fanc HSBC – newid defnydd y lloriau uchaf a'r llawr daear isaf yn fflatiau.

A170798 – Tir wrth ymyl The Curlews, Maesycrugiau – Adeiladu annedd.

Penderfynwyd cynnwys cynllunio ar agenda cyfarfod mis nesaf.

## **8. Anfonebau**

**Llinos Jones** – Cafwyd anfoneb am y swm o £148.95 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Gorffennaf a derbynwyd y dylid ysgrifennu siec i'w Thalu.

**Abacus Cleaning**- cafwyd dwy anfoneb am y swm o £213.75 yr un am lanhau llochesau bws a

**Cered** Poster was received and distributed.

**Grant Thornton** Notice of Conclusion of Audit was received and unanimously approved and accepted. Notice to be displayed for a period of 14days. Accounts also available for inspection at Clerks home address by previous appointment. Confirmation was received that the accounts as at 30 June 2017 have been examined and found to be correct on the information provided. Members congratulated the Clerk on yet again achieving a clean audit.

**J Parkers** - Autumn 2017 Catalogue was received.

## **7 Planning:**

Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 13.09.17 was received.

The following plans were supported by the Community Council and there were no objections:-

A170827 – Land of North side of A486 part of Blaencwmerwydd Farm – erection of dwelling and an agricultural outbuilding.

A170715 – Former HSBC Bank – change of use of upper and lower ground floors into flats.

A170798 – Land adjacent to The Curlews, Maesycrugiau – Erection of a dwelling.

It was decided to put planning on the agenda next month.

## **8. Invoices**

**Llinos Jones** – Invoice for July translation was received for the sum of £148.95 and cheque was passed for Payment.

**Abacus Cleaning**- two invoices for cleaning of bus shelters received for £213.75 each and passed for payment.

**Mark Wilson** – Invoice was received for maintenance of footpaths, swimming pool entrance and King Street in the sum of £000000 and for the summer watering of flowers in the sum of £000000 was received for £1010.

derbynwyd y dylid eu talu.

Mark Wilson – Cafwyd anfoneb am y swm o £000000 am gynnal a chadw llwybrau troed, mynedfa y pwll nofio a Stryd y Brenin ac am y swm o £1010 am ddyfrhau'r blodau yn ystod yr haf.





**Ddim ar gyfer y cyhoedd.**

**Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques:**

Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/  
Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-

		£ c/£ p
Nia Davies	Cyflog y Clerc/Clerk Wages	423.24
HMRC	Cyflog y Clerc/Clerk Wages	105.80
Llandysul Snooker	Rhodd/Donation	2912.24
Addlodai Cymru	Rhodd/Donation	1500.00
Llinos Jones	Cyfieithu/Translating	148.95
Abacus Cleaning	Cynnal a Chadw/Maintenence	427.50
Mark Wilson	Cynnal a Chadw/Maintenence	1010.00
Sioe Prengwyn	Rhodd/Donation	200.00
		000589
		000590
		000591
		000592
		000594
		000595
		000596
		0005

11/09/17